**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 30 Gorffennaf 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus

**Awdur yr Adroddiad:** Liz Grieve- Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol

**Teitl:** Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Adroddiad Blynyddol 2014-15 – Perfformiad a Gweithgarwch

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae adroddiad gweithgarwch a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn seiliedig ar y cyd-flaenoriaethau partneriaeth a gytunwyd fel y nodwyd yn yr Archwiliad Troseddau sy'n cael ei gynnal yn flynyddol. Mae Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru (NWSCB) yn cytuno ar y blaenoriaethau ac yna'n llunio cynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro gan NWSCB, yn lleol rydym yn darparu'r cynllun gweithredu hwn trwy ddadansoddi beth sy'n digwydd yn ein hardal leol a gweithredu datrysiadau lleol.

1.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2014-2015.

1.3 Adroddiad perfformiad llawn Sir Ddinbych 2014/15 (gweler Atodiad 1).

1.4 Crynodeb gweithgarwch ar gyfer yr holl brosiectau a ariennir gan PDC 2014/15 (gweler Atodiad 2).

1.5 Mae'r adroddiad perfformiad / gweithgarwch yn cael ei drafod yn flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu Pwyllgor Archwilio Partneriaethau o weithgarwch y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd yn 2014-2015.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Yr argymhellion yw bod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn darparu sylwadau ar gynnwys yr adroddiad gweithgarwch /perfformiad ynghlwm.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Fe grëwyd PDC yn 1998 i ddatblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau

i leihau trosedd ac anhrefn. Roedd gan bob Awdurdod eu PDC eu hunain. Tua 7 blynedd yn ôl fe unodd timau PDC Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (CBSC), a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn un tîm unigol, gyda CBSC yn brif gyflogwyr. Mae Gwella a Moderneiddio Busnes yn arwain rheolaeth PDC yn Sir Ddinbych.

4.2 Mae trefn cyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys:

- Grŵp Llywio Strategol - sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn - Presenoldeb CSDd; Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol (Liz Grieve), Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (y Cyng. D Smith).

- Grŵp Gweithredu – grŵp gweithredol sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod unrhyw broblemau sy'n codi – Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Emlyn Jones) a Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol (Liz Grieve) yn cynrychioli CSDd yn y cyfarfod hwn.

- Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - yn cael ei gynnal bob pedair wythnos ac mae'r Uwch Swyddog Gorfodaeth (Tim Wynne-Evans) yn mynychu ar ran CSDd.

4.3 Y pum maes blaenoriaeth PDC ar gyfer 2014-2015 oedd:

1. Lleihau troseddau a'r effaith ar y gymuned drwy:

    - Weithio mewn partneriaeth i leihau troseddau treisgar.
    - Monitro troseddau rhyw difrifol trwy ddadansoddi ac ymateb i ddata.
    - Gweithio mewn partneriaeth i leihau trosedd meddiangar difrifol.
    - Gweithio mewn partneriaeth i leihau nifer y bobl sy'n dioddef troseddau dro ar ôl tro

2. Lleihau aildroseddu gan;

    - Weithio mewn partneriaeth i leihau ail-droseddu ymysg y troseddwyr mwyaf cyson.
    - Gweithio mewn partneriaeth i leihau troseddu ymysg rhai dan 18 oed.

3. Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad sy'n effeithio ar yr amgylchedd drwy:

    - Leihau troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo trwyddedig
    - Lleihau argaeledd alcohol i bobl ifanc
    - Lleihau adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol
    - Cynyddu nifer y Rhybuddion Cosb Benodedig sy'n cael eu rhoi am droseddau amgylcheddol

4. Taclo cam-drin domestig yn effeithiol drwy:

- Fonitro digwyddiadau domestig a throseddau domestig trwy gynadleddau asesu risg aml-asiantaeth.
- Gwella ymateb yr holl asiantaethau perthnasol i ddioddefwyr cam-drin domestig trwy gynnal cyfarfodydd strategol i wella safonau.

4.4 Mae gan bob maes Blaenoriaeth nifer o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd a thueddiadau troseddau. Rydym yn adolygu’r holl ystadegau bob chwarter yn y grŵp gweithredu ac yn gweithredu ar unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

4.5 Diagram strwythur cyfarfodydd partneriaeth er gwybodaeth (gweler Atodiad 3).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cyflawni blaenoriaethau Cynllun Lles Sir Ddinbych.

5.2 Mae'r gwaith hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau gwasanaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae gweithgarwch partneriaeth o fewn y Cynllun Gweithredu yn cael ei ariannu’n llawn gan grant, fodd bynnag bydd pob gwasanaeth yn dyrannu swm penodol o gyllid fydd yn cefnogi canlyniadau yn uniongyrchol ar gyfer lleihau trosedd.

6.2 Crynodeb cyllid grant (gweler Atodiad 4).

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Gan fod ffocws gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yr un fath ag yn y blynyddoedd blaenorol nid oes unrhyw Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb newydd wedi cael ei gynnal.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ymgynghorwyd y PDC yn 2010 ar Gynlluniau Gweithredu 2011-2015 gyda’r holl Awdurdodau cyfrifol (Cyfarwyddwr Awdurdod Lleol, Tân, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol ac Iechyd).

8.2 Mae'r PDC yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Archwilio Partneriaethau'r ddau Awdurdod Lleol.

8.3 Mae'r PDC yn adrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ôl yr angen

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae cost darparu'r gweithgarwch partneriaeth sy'n derbyn sylw yn yr adroddiad hwn wedi'i gynnwys o fewn y cyllid allanol sydd ar gael.

9.2

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y brif risg yw nad ydym yn gwybod beth fydd y cyllid diogelwch cymunedol ar gyfer 2016-2017. Er mwyn lliniaru'r risg, byddwn yn sicrhau bod ein holl achosion busnes yn gadarn, a bod gan bob prosiect ganlyniadau partneriaeth clir.

10.2 Mae posibilrwydd yn 2016-2017 y bydd cyllid Cydlynydd Cam-drin Domestig yr ydym yn ei dderbyn yn isranbarthol ar hyn o bryd yn newid i fod yn ffrwd cyllid rhanbarthol yn y dyfodol. Rydym yn aros am ddigwyddiad ymgynghori a gynhelir gan Lywodraeth Cymru i drafod dyfodol cyllid cam-drin domestig yng Ngogledd Cymru.

10.3 Arweiniodd yr archwiliad Llywodraethu a gynhaliwyd yn Sir Ddinbych yn 2014 at nifer o feysydd a oedd angen eu gwella. Mae bron pob un o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau ac rydym yn aros am ymweliad diweddaru archwilio ar ddiwedd mis Mehefin. Y prif faes i'w wella oedd cynhyrchu cytundeb partneriaeth. Rhywbeth nad oedd angen ei gynhyrchu ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn flaenorol gan fod y Bartneriaeth yn Bartneriaeth Strategol a'r rheolau wedi'u gosod yn amlwg mewn statud. Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu ac fe'i gwelir fel datblygiad hynod boblogaidd gan yr aelodau gan fod yr holl ddogfennau cysylltiedig megis y cylch gorchwyl wedi'u diweddaru (gweler Atodiad 5).

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- Adran 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder
- Rheoliadau (Trosolwg ac Archwilio) Trosedd ac Anrhefn 2009
- Erthygl 6.3.5 o Gyfansoddiad y Cyngor.